O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 351 (Cy. 109)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall yn Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016 ("Rheoliadau 2016").

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2016 er mwyn hepgor cyfeiriad at ddwy set o reoliadau o Atodlen 2 i Reoliadau 2016 (y rheoliadau sydd wedi eu datgymhwyso o ran Cymru).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 351 (Cy. 109)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2016

Gwnaed *9 Mawrth 2016*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *14 Mawrth 2016*

Yn dod i rym *5 Ebrill 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2016(**2**).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Ebrill 2016.

Diwygio Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016

2.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, yn y tair colofn, hepgorer y cofnodion mewn perthynas ag —

(**1**) 2014 dccc 4 ("Deddf 2014"). *Gweler* adran 197(1) o Ddeddf 2014 am y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".
(**2**) O.S. 2016/211 (Cy. 84).

(a) Rheoliadau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Atgyfeirio Achosion a Adolygwyd) 2004(**1**); a

(b) Rheoliadau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Atgyfeirio Achosion a Adolygwyd) (Diwygio) 2005(**2**).

Mark Drakeford
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
9 Mawrth 2016

(**1**) O.S. 2004/2187.
(**2**) O.S. 2005/605.